**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig      ARD 04-00(min)**

**Dyddiad:** 15 Mawrth 2000

**Amser:** 9.15am i 12.20pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn Bresennol**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |

*Partneriaeth Amaeth-Fwyd*

| | |
|---|---|
| Christine Lewis | Cadeirydd, Partneriaeth Amaeth-Fwyd |
| John Lloyd Jones | Cadeirydd, Grp Strategaeth Cig Coch, Partneriaeth Amaeth-Fwyd |
| Wynfford James | Cyfarwyddiaeth Bwyd y WDA |
| Arwyn Davies | Cyfarwyddiaeth Bwyd y WDA |

*Swyddogion*

| | |
|---|---|
| Huw Brodie (Eitemau 2,4 a 6) | Pennaeth yr Adran Amaethyddiaeth |
| Peter Fullerton (Eitem 5) | Pennaeth yr Adran Materion Trefol a Gwledig |
| Mike Dunn (Eitemau 5 a 6) | Pennaeth yr Adran Polisi Amaethyddiaeth |
| Francis Cairns (Eitem 5) | yr Adran Materion Ewropeaidd |
| Glyn Perryman (Eitem 6) | Adain Polisi Amaethyddiaeth |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac amnewidiadau**

Croesawodd y Cadeirydd Elin Jones i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor a thalodd deyrnged i Ieuan Wyn Jones am ei waith fel Cadeirydd.

**Eitem 2: Adroddiad yr Ysgrifennydd Cynulliad**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwysig i'r Pwyllgor gydnabod y sefyllfa anodd sy'n wynebu'r sector llaeth yng Nghymru ond y dylai osgoi gwneud addewidion na allai eu cadw. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad wrth y Pwyllgor:

- bod uwchgynhadledd gyda'r Prif Weinidog wedi ei threfnu ar gyfer 30 March. Yn ogystal â chymryd rhan yn y cyfarfod, roedd yn bwysig bod Cymru yn datblygu ei hymagwedd strategol ei hun tuag at y problemau presennol mewn amaethyddiaeth;
- bod yr NFU yn cyfarfod â Paul Murphy i drafod y problemau sy'n wynebu'r sector llaeth. Roedd y rhain wedi codi o ganlyniad i ostyngiad sylweddol ym mhrisiau llaeth a dalwyd i gynhyrchwyr a achoswyd gan gryfder y bunt. Roedd y llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant ond nid oedd yna unrhyw atebion cyflym ac roedd yn rhaid i unrhyw gymorth fod â sail gyfreithiol gadarn. Y prif opsiynau felly oedd y mesurau trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Comisiynwyd ymchwil ar helpu ffermwyr i arallgyfeirio ac roedd y Llywodraeth yn pwyso ar y CE i gadw'r cynllun cymhorthdal llaeth i ysgolion. Roedd yn parhau i roi pwysau ar Nick Brown am iawndal amaeth-ariannol;
- llofnodwyd cytundeb cyntaf Tir Gofal y diwrnod cynt ac ategodd ei hymrwymiad i'r cynllun.

Croesawyd y gydnabyddiaeth o'r argyfwng sy'n wynebu'r sector llaeth yng Nghymru. Mynegwyd y

farn ei bod yn bwysig trosglwyddo'r neges i'r Prif Weinidog bod economi cefn gwlad yn wynebu dinistr ac y dylid hefyd lobïo archfarchnadoedd i esbonio'r problemau sy'n wynebu'r sector llaeth. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid anfon llythyr at y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn esbonio trafferthion y diwydiant yng Nghymru ac y dylid cychwyn deialog adeiladol gyda'r archfarchnadoedd i geisio sicrhau cyfran well o bris adwerthu llaeth i gynhyrchwyr.

Yn ystod y drafodaeth argymhellwyd y dylai'r llythyr gynnwys galwad i godi'r gwaharddiad ar allforion lloi byw cyn gynted â phosibl. Dylid hefyd ymdrechu i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer cig llo Cymru yn y DU. Awgrymwyd hefyd bod datblygu marchnadoedd ar gyfer cig llo sy'n gyfeillgar i les yn ddewis mwy cynaladwy nag allforio lloi byw. Nododd y Pwyllgor mai blaenoriaeth Llywodraeth y DU oedd sicrhau codi'r gwaharddiadau yn yr Almaen a Ffrainc ar allforio cig eidion o'r DU. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol

- y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu at y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn;

  - ategu'r cais i iawndal amaeth-ariannol gael ei dalu i ffermwyr Cymru;

- tynnu sylw at effaith cryfder y bunt ar y diwydiant amaeth ac economi gwledig Cymru; a,
- galw am godi'r gwaharddiad ar allforio lloi cyn gynted â phosibl ac i ddatblygu'r farchnad ar gyfer cig lloi yn y DU; a
- dylid cychwyn deialog gydag archfarchnadoedd i geisio sicrhau gwell cyfran o bris adwerthu llaeth i gynhyrchwyr.

Gofynnodd y Cadeirydd a allai'r Pwyllgor gymryd unrhyw gamau eraill i helpu'r diwydiant. Argymhellwyd y dylid sefydlu gwasanaeth cyngor busnes am ddim. Roedd llawer o ffermwyr heb arian o gwbl i gael cyngor ond roedd angen help arnynt i ailstrwythuro eu busnesau. Cytunwyd y dylid darparu adroddiad ar yr hyn y gellid ei wneud a pha arian oedd ar gael. Nododd y Pwyllgor y gellid darparu cyngor busnes am ddim o dan raglenni Amcan 5b ac Amcan 1 ond bod angen cymryd gofal yn ystod y cyfnod trawsnewidiol rhwng rhaglenni nad oedd y Cynulliad yn gweithredu y tu hwnt i'w bwerau. Cytunodd y Pwyllgor i ddirprwyo awdurdod i lefarwyr pleidiau ar y mater hwn fel y gellid ei ddwyn ymlaen cyn gynted â phosibl.

*Camau gweithredu*

- Llythyr i'w baratoi i'r Pwyllgor ei anfon i'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru;
- ategu'r alwad am dalu iawndal amaeth-ariannol i ffermwyr Cymru;
- tynnu sylw at effaith cryfder y bunt ar y diwydiant amaeth ac economi cefn gwlad Cymru; a,
- galw am godi'r gwaharddiad ar allforio lloi cyn gynted â phosibl ac i'r farchnad ar gyfer cig llo i gael ei datblygu yn y DU - **Ysgrifenyddiaeth**
- Rhoi ystyriaeth ar frys i'r opsiynau ar gyfer darparu cyngor busnes am ddim i ffermwyr. Y camau i'w gweithredu cyn gynted â phosibl, mewn cysylltiad â llefarwyr y grp, a'r cynnydd i gael ei nodi yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Mawrth – **Huw Brodie**

**Eitem 3 : Partneriaeth Amaeth-Fwyd**

Croesawodd y Cadeirydd Christine Lewis, John Lloyd Jones, Wynfford James ac Arwyn Davies i'r cyfarfod gan longyfarch John Lloyd Jones ar ei benodiad diweddar fel Cadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Diolchodd Christine Lewis i'r pwyllgor am y cyfle i drafod gwaith y bartneriaeth unwaith eto ac atgoffodd yr Aelodau fod y Bartneriaeth Amaeth-Fwyd yn uno pob corff cyhoeddus â diddordeb mewn bwyd a gynhyrchwyd yng Nghymru.

Dywedodd John Lloyd Jones fod y Gweithgor Cig Oen a Chig Eidion wedi cael eu tynnu o ystod eang o ddiddordebau gan gynnwys y Comisiwn Cig a Da Byw, arwerthwyr, cyflenwyr cydweithredol a manwerthwyr. Nid oedd y strategaeth yn darparu ateb cyflym ond roedd yn fframwaith tymor canolig i hwy. Ni allai cig oen a chig eidion Cymru gystadlu ar bris yn unig ond roedd yn rhaid datblygu brand Cymreig cryf yn seiliedig ar gynnyrch a ystyrir yn naturiol, yn gynaladwy ac yn wyrdd. Roedd felly synergedd rhwng brandio Cymreig a Thir Gofal. Roedd arian wedi ei sicrhau ar gyfer Hyrwyddiadau Cig Oen a Chig Eidion Cymru ac roedd y brand Cymreig yn cael ei amlygu gan Fwrdd Croeso Cymru a'r WDA. Roedd ansawdd y cynnyrch amrwd yn cael ei wella trwy rwydwaith o ffermydd ffocws, ffermwyr yn dewis ë yn yn amlach a datblygiad cwmni cydweithredol marchnata Cymru gyfan. Byddai'r prosbectws ar gyfer Cwmni Cydweithredol Ffermwyr Cymru Gyfan yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill a byddai ei lwyddiant yn dibynnu ar y gymuned amaethyddol ei hun. Pwysleisiodd yr ymgynghorwyr oedd yn cynghori ar y project na ddylai buddsoddiad mewn prosesu fod yn rheswm am sefydlu Cwmni Cydweithredol ac roedd yn rhaid ei redeg ar sail fasnachol.

Yn y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- codwyd cwestiwn yngln â swyddogaeth cwmnïau cydweithredol presennol. Nododd y Pwyllgor y byddai rhai cwmnïau cydweithredol oedd eisoes yn bodoli yn debygol o fod eisiau bod yn rhan o Gwmnïau Cydweithredol Cymru Gyfan tra byddai eraill am gynnal eu hannibyniaeth
- o ganlyniad i natur dymhorol cig oen Cymru awgrymwyd bod angen gweithfeydd rhewi i alluogi parhad yn y cyflenwad. Nododd y Pwyllgor y byddai maint y Gydweithfa yn ei galluogi i gytuno ar gontractau ar sail pris a gytunir ymlaen llaw;
- codwyd yr effaith y gallai gwaith St Merrin ei chael ar ladd-dai presennol? Nododd y Pwyllgor y byddai St Merrin yn anochel yn effeithio ar y sector. Y prif gyfyngiad i ladd-dai bach oedd y gyfundrefn reoliadol ond gallent fod â swyddogaeth werthfawr yn enwedig mewn meysydd arloesol fel y sector organig a chefnogi marchnadoedd ffermwyr ac roedd manteision ar gyfer lles anifeiliaid. Roedd ymdrechion ar waith i leihau baich costau archwilio ar ladd-dai bach;
- mynegwyd pryder na allai cig oen Cymru gystadlu yn y farchnad fyd-eang a'r gorbwyslais amlwg ar nyth farchnadoedd cyfyngedig. Nododd y Pwyllgor mai'r pwynt oedd na allai cig oen Cymru gystadlu ar bris yn unig o fewn strwythur ffermio presennol ffermydd yng Nghymru. Mae

marchnata cynnyrch o ansawdd uchel sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd wedi ei anelu ar y farchnad gyfan;

- mae Hyrwyddiadau Cig Oen a Chig Eidion Cymru yn aelodau o'r un bartneriaeth amaeth-fwyd;
- byddai sefydlu Cwmni Cydweithredol Cymru Gyfan yn creu problemau i arwerthwyr. Nododd y Pwyllgor bod 40% o gig oen yng Nghymru eisoes yn cael ei werthu ar sail pwysau marw a'r ffordd ymlaen i arwerthwyr oedd gweithredu fel canolfannau casglu ond y byddai'r trafodaethau'n parhau;
- nododd y Pwyllgor bod cynllun cig lloi peilot wedi ei sefydlu yng Nghaerfyrddin yn defnyddio system cyfeillgar i les gyda'r bwriad o allforio'r cynnyrch i Ewrop. Roedd marchnad y DU yn seiliedig yn bennaf ar y fasnach arlwyo mewn dinasoedd mawr ond roedd yn tyfu. Roedd camau hefyd yn cael eu cymryd i gryfhau brand cig eidion Cymru;

Ar weithgareddau ehangach y Bartneriaeth Amaeth-Fwyd nododd y Pwyllgor y byddai prosbectws ar gyfer y sector llaeth a phecyn ar gyfer buddsoddwyr, yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd ar gyfer prosesu yn barod ddiwedd Mawrth. Diolchodd y Cadeirydd y Bartneriaeth Amaeth-Fwyd am eu cyflwyniad ac roeddent yn edrych ymlaen i'r cyfarfod nesaf i ystyried y grë p strategaeth llaeth ar 12 Ebrill.

**Eitem 4: Hadau GM**

Dywedodd Christine Gwyther wrth y Pwyllgor na fu'n bosibl trefnu i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Allyriadau i'r Amgylchedd (ACRE) y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwydydd a Phrosesau Newydd (ACNFP) a'r Pwyllgor Rhywogaethau Planhigion a Hadau (PVSC) i fynychu'r pwyllgor hwn. Byddai ACRE, ACNFP a PVSC yn mynychu'r cyfarfod ar 29 Mawrth i ateb cwestiynau'r Pwyllgor. Roedd ystyriaethau hefyd yn cael eu rhoi i wahodd cynrychiolydd o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwyd Porthiant Anifeiliaid (ACAF). Dywedodd Christine Gwyther na fyddai ei phenderfyniad ar restru porthiant india corn GM yn cael ei wneud tan ar ôl y cyfarfod ar 29$^{ain}$.

**Eitem 5: Dogfen Rhaglennu Unigol Amcan 2** - ARD 04-00(p.1)

Croesawodd y Cadeirydd Peter Fullerton a Francis Cairns i'r cyfarfod. Dywedodd y gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried nodau a strategaethau eang rhaglen Amcan 2 a'r Ddogfen Rhaglennu Unigol o safbwynt y ffordd yr oedd yn effeithio ar Gymru wledig. Dywedodd Peter Fullerton bod papur ymgynghorol wedi ei gyhoeddi gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru a fyddai'n drafftio Dogfen Rhaglennu Unigol ar gyfer Amcan 2. Byddai'r SPD yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 17 Mai ac yna'n cael ei hystyried gan y Cynulliad mewn sesiwn Lawn. Er bod y cyfnod ymgynghorol ffurfiol wedi dod i ben ar 17 Mawrth byddai cyfleoedd pellach i'r Pwyllgor ddylanwadu ar y trafodaethau. Nododd y Pwyllgor bod Amcan 2 yn werth £50 miliwn dros saith mlynedd y rhaglen a'r

rhaglen gyfnewidiol yn werth £18 miliwn dros chwe blynedd. Gwnaeth y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- roedd y GE wedi gofyn am broffil gwariant gwastad ar gyfer Amcan 1 ac roedd yr un peth yn berthnasol i Amcan 2. Byddai'r proffil yn seiliedig ar ymrwymiadau ac os byddai'r SPD yn cael ei chymeradwyo erbyn 31 Mai byddai'r GE yn caniatáu adolwg i'r dyddiad hwnnw;
- Nododd y Pwyllgor bod y meysydd ar gyfer Amcan 2 wedi eu cytuno dros dro gan y CE ym mis Rhagfyr ac y disgwylir cytundeb terfynol, heb unrhyw newidiadau, ar ddiwedd Mawrth;
- Nodwyd y byddai'r arian yn cael ei ddosbarthu per capita a oedd yn golygu na fyddai unrhyw wahaniaethu rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Nododd y Pwyllgor bod hwn yn ofyniad gorfodol ond bod y Bartneriaeth yn fodlon gyda'r ymagwedd hon;
- Codwyd cwestiynau am y trefniadau monitro a gwerthuso ac argymhellwyd y dylid gwneud adroddiad blynyddol i'r Cynulliad gan gorff annibynnol. Nododd y Pwyllgor bod trefniadau monitro wedi eu nodi yn y rheoliadau. Byddai pwyllgor monitro yn cynnwys y partneriaid amrywiol yn cael ei sefydlu. Awgrymwyd y dylid cyflwyno'r cynnig am adroddiad blynyddol fel ymateb i'r ymgynghoriad;
- nododd y Pwyllgor bod angen ymagwedd gydlynol i ymdrin â'r cynlluniau oedd yn cynnwys ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 2;
- codwyd cwestiwn ar effaith newidiadau ffiniol ar gymhwysedd ardal am Amcan 1. Cytunwyd y byddai nodyn yn cael ei ddarparu.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod y ffordd y gellid ystyried drafft terfynol yr SPD gyda Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd ym mis Mai.

*Pwyntiau gweithredu*

Nodyn i'w ddarparu ar effaith newidiadau ffiniol ar gymhwysedd ardal i arian Strwythurol y GE **- Peter Fullerton/Francis Cairns**

**Eitem 6: Astudiaeth pysgodfeydd** - ARD 04-00(p.2)

Croesawodd y Cadeirydd Glyn Perryman i'r cyfarfod.

Roedd y papur gerbron y Pwyllgor yn amlinellu'r cynnig ar gyfer astudiaeth i opsiynau ar gyfer datblygiad pysgodfeydd yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd angen mwy o wybodaeth am botensial y sector cyn datblygu cynigion cadarn.

Croesawyd yr astudiaeth gan bob Aelod a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd llawer iawn o botensial ar gyfer datblygu'r diwydiant pysgota yng Nghymru;

- roedd Sir Benfro wedi penodi swyddog pysgodfeydd arbenigol ond roedd perygl bod pobl o’r fath yn gweithio mewn gwagle yn absenoldeb strategaeth eglur ar gyfer y diwydiant.
- Dylai unrhyw strategaeth fynd i’r afael â’r ffordd y gallai’r diwydiant fanteisio ar arian Amcan 1;
- Roedd angen i’r astudiaeth fynd i’r afael â threfniadau sefydliadol y diwydiant ac ystyried ai’r system bresennol o ddau bwyllgor pysgodfeydd morol oedd y mwyaf effeithiol. Sicrhawyd y Pwyllgor y byddai’r astudiaeth yn edrych ar y mater hwn ond mai penderfyniad yr awdurdodau lleol oedd yn llunio’r pwyllgorau pysgodfeydd morol oedd hyn yn bennaf;
- Dylai’r astudiaeth ystyried y potensial ar gyfer marchnata pysgod a chregyn bysgod a oedd yn ddigonol yng Nghymru a rhoi brand Cymreig penodol iddynt.

**Eitem Ychwanegol ar Amaethyddiaeth Mewn Cyllidebau Blynyddol**

Nododd y Pwyllgor nifer o drosglwyddiadau bach sy’n digwydd o fewn y gyllideb amaethyddol ar gyfer 1999-2000. Roedd y mwyafrif yn niwtral ariannol ond tynnodd yr Ysgrifennydd Cynulliad sylw at y £130,000 a drosglwyddwyd o gyllideb y diwydiant. Roedd yr arian hwn wedi cyfrannu at yr arian ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y Cynllun Cymorth Organig. Mae copi o’r wybodaeth a ddarparwyd i’r Pwyllgor yn atodiad 1.

**Eitem 7: Cofnodion pwyllgor 1 Mawrth** - ARD 03-00(min)

Gofynnodd Karen Sinclair i’r cofnodion gael eu hadolygu i gofnodi, o dan eitem 4;

- ei bod wedi gofyn i’r ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus gael eu hailddosbarthu fel isffyrdd i alluogi cerbydau ceffylau am nad oedd hawl cyfreithiol gan y dull hwn o gludiant ddefnyddio llwybrau marchogaeth, ac
- ei bod wedi codi pryderon bod y dyddiad cau arfaethedig ar gyfer mapiau swyddogol yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol yn rhy fyr. Roedd angen llawer iawn o dystiolaeth a dylid ymestyn y terfyn amser i 15-20 mlynedd neu’n well fyth dileu’r terfyn amser yn gyfan gwbl.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid aileirio’r ymadrodd ‘gwrthwynebiad cryf i hawl statudol i grwydro’ yn eitem 4 i ‘mynegodd rhai Aelodau wrthwynebiad cryf i hawl statudol i grwydro'

Gyda’r diwygiadau hynny derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 1 Mawrth 2000.

*Pwyntiau gweithredu*

- Cofnodion i’w diwygio fel y cytunwyd - **Ysgrifenyddiaeth**

---

Atodiad 1

**RHEOLAETH YN YSTOD Y FLWYDDYN O GYLLIDEBAU AMAETHYDDOL 1999-2000**

Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r Atodiad atodedig, sy’n rhestru nifer o drosglwyddiadau arian o fewn cyllidebau amaethyddol i ystyried newidiadau mewn galw yn ystod y flwyddyn. Ac eithrio trosglwyddo £130,000 o gyllideb y Diwydiant (sy’n darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer y Cynllun Ffermio Organig), mae’r trosglwyddiadau arian hyn yn niwtral yn nhermau’r gyllideb Amaethyddol yn ei chyfanrwydd.

## ATODIAD A

| Swm y trosglwyddiad (£000oedd) | BEL Gwreiddiol(1) | BEL Newydd(1) | Is Grwpiau | Rheswm am drosglwyddo |
|---|---|---|---|---|
| 27 | Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif | Cynllun Coetir Fferm | | Defnydd cynyddol o’r cynllun |
| 26 | " | Cynllun Premiwm Coetir Fferm | | " |
| 2 | " | Cynllun Rhostir | | " |
| 260 | " | Cynllun Ffermio Organig | | Fel y cytunwyd yn flaenorol |
| 130(2) | Adain Diwydiant (MEG(3) ar wahân) | " | | " |
| 230 | Cynllun Datblygu Marchnata | Grant Datblygu Gwledig | | Ailasesiad o wariant ar brojectau cyfredol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 20 | " | Strategaeth Bwyd | | Defnydd cynyddol o’r cynllun |
| 10 | " | Grantiau Peilot (Arweinydd) | | Ymrwymiadau ychwanegol wedi eu dwyn ymlaen o’r flwyddyn flaenorol |
| 30 | Arolygon a Gomisiynwyd – Agweddau Economaidd | Pwyllgorau, ymholiadau ac ati | Ffioedd Cyfreithiol<br><br>NAWAD | Ar gyfer setliadau y tu allan i’r llys ar nifer o faterion |
| 10 | " | " | Tribiwnlys Tir Amaethyddol | Costau rhedeg cynyddol a chostau hyfforddi |
| 17 | " | " | Offer ar gyfer Swyddogion Maes | Angenrheidol am resymau Iechyd a Diogelwch |
| 33 | " | Grantiau Harbwr Pysgodfeydd | | Defnydd cynyddol o’r cynllun |
| 52 | Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif | " | | " |
| 78 | " | MoD – Amddiffyn Pysgodfeydd | | Angenrheidiol i gynnwys costau ychwanegol na ragwelwyd yn ystod y cam cynllunio |

(1) - BEL: Llinell Gwariant Cyllideb

(2) – arian ychwanegol

(3) - MEG: Grë p Gwariant Mawr